MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

Gwasanaethau Etholiadol
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa
Aberaeron, Ceredigion
SA46 0PA
01545 572032
gwasanaethauetholiadol@ceredigion.gov.uk
www.ceredigion.gov.uk

Rhif cyfeirnod:

Annwyl Breswylydd

## A yw'r wybodaeth ar y gofrestr etholiadol yn gywir ar gyfer y cyfeiriad hwn?

Mae pawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n 14 oed neu'n hŷn bellach yn gallu cofrestru i bleidleisio. Ceir rhagor o wybodaeth am bwy sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio ar dudalen 2.

| Mae'n rhaid i chi ymateb os: | Nid oes angen i chi ymateb os: |
| --- | --- |
| oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, neu os oes pobl sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys. | yw'r holl wybodaeth yn gywir ac yn cynnwys pawb sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwn. |

**Y bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwn.** Cadarnhewch fod pob enw, gan gynnwys unrhyw un sy'n 14 oed neu'n hŷn, wedi'i gynnwys ac yn gywir.

| Enw llawn | Cenedligrwydd | 76 oed neu'n hŷn (wedi'i eithrio rhag gwasanaeth rheithgor) | Pleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy? (rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) | Ar y gofrestr agored? (rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Os bydd angen i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau, y ffordd hawsaf o wneud hyn yw ar-lein. Dim ond ychydig o funudau mae'n ei gymryd.**

1 **Ewch i'r wefan**
www.registersecurely.com/ceredigion

2 **Nodwch eich cod diogelwch unigryw**
**Rhan 1:**
**Rhan 2:**

3 **Diweddarwch y wybodaeth am eich cartref a'i chyflwyno**
Dylech gynnwys enw a chenedligrwydd pawb sy'n byw yn y cyfeiriad hwn

Os bydd angen i chi ddiweddaru'r wybodaeth hon, bydd gofyn i chi ddatgan bod y wybodaeth yn gywir. Os nad ydych yn byw yn y cyfeiriad, bydd angen i chi ddweud wrthym pwy ydych chi (e.e. landlord).

Os byddwch yn ychwanegu pobl newydd, bydd angen iddynt hefyd gwblhau cais i gofrestru. Gallant wneud hyn drwy fynd i **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**. Byddwn yn anfon ffurflen at bob person newydd os na fyddant yn gwneud cais ar-lein.

Os oes gennych ymholiad, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 1.

Yn gywir

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

## Pwy sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio?

**Gallwch gofrestru i bleidleisio os ydych:**

- Yn breswylydd (sy'n byw fel arfer) yng Nghymru ac yn 14 oed neu'n hŷn (ond ni fyddwch yn gallu pleidleisio yn etholiadau'r Senedd nes eich bod yn 16 oed. Ni fyddwch yn gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU, cynghorau lleol nac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu nes eich bod yn 18 oed).

**Mae'n rhaid i chi hefyd fod naill ai:**

- Yn ddinesydd o Brydain, Gweriniaeth Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd, neu
- Yn ddinesydd o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd tramor sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU, neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnoch.

## Pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy

Er mwyn trefnu i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhywun rydych yn ymddiried ynddo yn pleidleisio ar eich rhan), gallwch lawrlwytho ffurflen gais drwy fynd i **electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr**. Er mwyn newid unrhyw drefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 1.

## Y gofrestr agored

Mae'r gofrestr agored yn rhan o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw un ei phrynu a chaiff ei defnyddio at sawl diben gwahanol, gan gynnwys cadarnhau enwau a chyfeiriadau ac at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Ni fydd dileu eich manylion o'r gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio. Os ydych o dan 16 oed, ni chaiff eich manylion eu cynnwys ar y gofrestr agored.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y ddwy gofrestr a sut y gellir eu defnyddio drwy fynd i **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio** neu gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 1.

## Datganiad preifatrwydd

Rydym yn casglu gwybodaeth o dan y sail gyfreithiol ei bod yn dasg a gynhelir er budd y cyhoedd, fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a rheoliadau cysylltiedig. Rydym yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni at ddibenion etholiadol, gan gynnwys ei chyfateb yn erbyn ffynonellau eraill o ddata i gefnogi'r gofrestr etholiadol. Os ydych wedi cofrestru ar hyn o bryd, rydym wedi prosesu eich data yn gywir lle y bo'n berthnasol. Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol ag unrhyw un arall, oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni rannu eich gwybodaeth ag ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr at ddibenion ymgysylltu democrataidd ac asiantaethau gwirio credyd i gadarnhau eich manylion pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd.

Os <u>nad</u> ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, gall unrhyw un brynu eich enw a'ch cyfeiriad a'u defnyddio at nifer o ddibenion, gan gynnwys marchnata uniongyrchol.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd. Mae'n rhaid iddo baratoi dogfen bolisi ar ffurf hysbysiad preifatrwydd yn nodi sut mae'n prosesu data personol. Cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/diogelwch-data-a-rhyddid-gwybodaeth/diogelwch-data/hysbysiad-preifatrwydd/gwasanaethau-etholiadol-preifatrwydd/ neu cysylltwch â ni i ofyn am gopi. Y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA 01545 572 032